# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION
# DYDD MERCHER, 25 MAWRTH 2026

**Presenoldeb:**

Cyng. Ioan Thomas (Cadeirydd)
Cyng. Medwyn Hughes (Is-gadeirydd)

**Cynghorwyr:** Elwyn Jones, June Jones, Anne Lloyd-Jones, Dyfrig Siencyn a Menna Trenholme

**Swyddogion:** Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Catrin Thomas (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Eleri Jones (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol), Lowri Haf Evans a Rhodri Jones (Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Annwen Hughes, Nia Jeffreys, Cai Larsen, Beth Lawton, Dafydd Meurig, Gwynfor Owen, Angela Russell, a Wendy Cleaver.

Mynegwyd siom bod nifer sylweddol wedi ymddiheuro am fethu mynychu'r Pwyllgor a hynny am amryw o resymau teilwng. Y gobaith i'r dyfodol yw gweld gwell cynrychiolaeth yn y cyfarfodydd hyn gan fod presenoldeb Aelodau yn allweddol i sicrhau prosesau cadarn a thryloyw.

Croesawyd Eleri Jones i'r cyfarfod a llongyfarchwyd hi ar ei phenodiad yn Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol. Dymunwyd y gorau iddi yn y swydd.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 12fed o Fawrth 2026 fel rhai cywir

## 5. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.**

**Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.**

## 6. CYFWELIAD AR GYFER PENNAETH ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD (DROS DRO)

Cadarnhawyd trefn y diwrnod gyda'r Aelodau.

Cyfwelwyd un ymgeisydd ar gyfer y swydd Pennaeth Adran Plant A Chefnogi Teuluoedd (Dros Dro)

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i roi cyflwyniad rhwng 10 a 15 munud ar y testun,

"Sut ellir darparu sicrwydd ar effeithiolrwydd gwasanaeth, ansawdd gwaith cymdeithasol a gweithredu diogel yr Adran Plant?"

Ymatebwyd i bum cwestiwn ffurfiol a ofynnwyd gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Ioan Thomas, ynghyd a chwestiynau ategol gan yr Aelodau.

Ar ddiwedd y cyfweliad, ymneilltuodd yr ymgeisydd o'r ystafell.

Gwahoddwyd Mr Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol) i gyflwyno adborth cryno o berfformiad yr ymgeisydd mewn cyfweliad proffesiynol gydag yntau a Catrin Thomas (Cyfarwyddwr Corfforaethol) gyda'r Cyng. Menna Trenholme (Aelod Cabinet Adran Plant A Chefnogi Teuluoedd) yn arsylwi. Eglurwyd na chynhaliwyd profion ac ymarferion seicolegol gan mai penodiad dros dro oedd hwn.

Trafodwyd y cyflwyniad ac ymateb yr ymgeisydd i'r cwestiynau

Cynigiwyd ac eiliwyd cynnig y swydd i Sharron Williams Carter

**PENDERFYNWYD penodi** Sharron Williams Carter i'r swydd Pennaeth Adran Plant A Chefnogi Teuluoedd (Dros Dro)

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 11.50 y.b.

______________________

**CADEIRYDD**